Strata Matrix

Y pwyslais ar Gymru
Communications with a Welsh accent

13 Gorffennaf 2007

John Walter Jones
Cadeirydd
S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
CAERDYDD

YMGYNGHORIAD AR DDARPARIAETH RHAGLENNI PLANT S4C

Mae StrataMatrix yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gyfer yr ymgynghoriad ar sefydlu sianel deledu Gymraeg i raglenni ar gyfer plant.

Ers ei sefydlu ym 1979 mae StrataMatrix wedi arloesi ym maes cysylltiadau cyhoeddus a marchnata trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys nifer o brosiectau yn ymwneud â phlant. Yn sgil ein gweithgaredd yn y sector hwn y comisyniwyd StrataMatrix gan S4C, yn nyddiau cynnar y Sianel, i fod yn gyfrifol am farchnata trwyddedau i ddenu cwmniau Cymreig i gynhyrchu nwyddau ar gyfer rhaglenni animeiddio'r Sianel gan gynnwys Superted a Wil Cwac Cwac. Teg nodi hefyd mai o lwyddiant marchnata Mistar Urdd i fudiad yr Urdd yn ystod y saithdegau y tyfodd yr ysgogiad a'r hyder i sefydlu StrataMatrix yn y lle cyntaf.

Mae nifer o staff y Cwmni yn rhieni i blant sy'n wylwyr ffyddlon i ddarpariaeth S4C.

Y mae StrataMatrix yn llwyr sylweddoli pwysigrwydd ehangu a datblygu darpariaeth teledu deniadol yn y Gymraeg ar gyfer plant ac yn gweld sefydlu sianel i'r pwrpas hwn yn gysyniad cyffrous ac yn ddatblygiad naturiol ym maes darlledu yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddyfeisio dulliau cynhyrfus ac arloesol i farchnata i sector penodol yn yr iaith Gymraeg.

Er hynny, byddai neilltuo S4C2, yn llwyr, fel y cyfrwng i'r sianel newydd ar gyfer plant heb hefyd sicrhau darpariaeth hawdd mynd ato o ddarllediadau o drafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn achos pryder i'r Cwmni. Mae S4C2 yn gyfrwng cyfathrebu gwerthfawr i'r sefydliad a byddai ei golli yn niweidiol i ganfyddiad y cyhoedd o'r Cynulliad a hynny ar yr union adeg y mae'n esblygu i fod yn fwyfwy perthnasol i fywyd y Cymry a hynny ymhob rhan o Gymru.

Gwneir defnydd helaeth iawn o raglenni byw, a rhaglenni sydd wedi eu recordio, ar S4C2 gan ein tîm materion cyhoeddus. Dyma sy'n ei gwneud hi'n bosibl i StrataMatrix ddarparu gwasanaethau monitro gwleidyddol cynhwysfawr i nifer o'n clientau, a hynny mewn amryw o feysydd. Mae monitro'r darllediadau yn hanfodol am nad oes modd mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgorau. Bydd hyn yn gynyddol anodd yn sgil y cynnydd yn nifer pwyllgorau'r Cynulliad o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn yr adroddiadau hyn yn sylfaen cwbwl angenrheidiol i weithgareddau gwleidyddol ein clientau ac yn gyfrwng i'r Cynulliad dderbyn ymateb gan unigolion a chyrff ymhob sector.

Er cydnabod pwysigrwydd amlwg datblygu rhaglenni plant ar S4C mae diogelu parhad y darllediadau hyn o'r Cynulliad yn ffactor y teimlwn sy'n rhaid ei ystyried yn yr arolwg ac rydym yn galw ar Awdurdod S4C i roi ystyriaeth lawn i ddiogelu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn sy'n gyfrwng unigryw ac angenrheidiol i'r nifer cynyddol sy'n gweithio ac sydd a diddordeb ym mywyd sifil Cymru.

Yn gywir

Wynne Melville Jones

Cadeirydd